St Michael's College

Vocation Course

For an application for the Vocation Course please contact:

Tina Franklin
Course Administrator
St Michael's College
54 Cardiff Road
Llandaff
Cardiff
CF5 2YJ

Tel: 029 20 563379
Email: tf@stmichaels.ac.uk

St Michael's Vocation Course
"Who, me Lord?"

- Do you wish you could deepen your understanding of the Christian faith?
- Have you wondered what it might be like to study in a College setting?
- Have you ever considered some form of Christian ministry?

Many people would like to know more about the Christian faith but are nervous about the thought of study in a College setting. They are worried about what is expected of them and how they will cope with reading and writing essays. Some think about offering for Christian ministry but shy away because the thought of study is too much. Such people would welcome a half-way house between formal study in College and coming together for discussion in local parish groups.

"Who, me Lord" is a course designed for those who might be thinking about ministry or who want to deepen their knowledge of Christianity but are unsure how they will get on with formal study. The course is written by tutors at St Michael's College. It examines areas such as the bible, mission, spirituality, Christian belief and ministry. Easy to follow study guides will help people explore each topic. The study guides are self-contained so you don't need to be near a library.

The course begins with a residential overnight meeting at St Michael's College (January 10th – 11th 2009). You then have ten weeks to examine five topics. You work through the study materials in your own home. Every fortnight you meet up with a local tutor to talk about what you have studied. At the end of the ten weeks there is a study day which leads on to the next part of the course. This is a four week placement – during which you observe the work of a local minister. The fee for the whole course is £75.

If you are someone who wants to understand more about Christianity but has worried about study then this course is for you.

Coleg Mihangel Sant

Cwrs Galwedigaeth

Am ffurflen gais ar gyfer y cwrs Galwedigaeth, cysylltwch â:

Tina Franklin
Gweinyddydd y Cwrs
Coleg Mihangel Sant
54 Heol Caerdydd
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YJ

Ffôn: 029 20 563379
E-bost: tf@stmichaels.ac.uk

Cwrs Galwedigaeth Coleg Mihangel Sant
"Pwy, fi Arglwydd?"

- A ydych am ddyfnhau'ch dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol?
- A ydych wedi meddwl sut brofiad fyddai astudio mewn Coleg?
- A ydych wedi ystyried rhyw ffurf ar y weinidogaeth Gristnogol?

Byddai llawer o bobl yn hoffi gwybod mwy am y ffydd Gristnogol ond maent yn nerfus o astudio mewn Coleg. Maent yn poeni am yr hyn a ddisgwylir ohonynt a sut y byddant yn ymdopi â darllen ac ysgrifennu traethodau. Mae rhai'n meddwl am ymuno â'r weinidogaeth Gristnogol ond yn peidio â gwneud oherwydd bod y syniad o astudio'n drech na hwy. Byddai pobl o'r fath yn croesawu cyfaddawd rhwng astudiaethau ffurfiol yn y Coleg a dod ynghyd ar gyfer trafodaethau mewn grwpiau plwyfol lleol.

Mae "Pwy, fi Arglwydd" yn gwrs sydd wedi ei lunio i'r rheini a allai fod yn meddwl am y weinidogaeth neu sydd am ddyfnhau eu gwybodaeth o Gristnogaeth ond nid ydynt yn sicr sut y byddant yn ymdopi ag astudiaethau ffurfiol. Mae'r cwrs wedi'i lunio gan diwtoriaid yng Ngholeg Mihangel Sant. Mae'n trafod meysydd megis y Beibl, cenhadaeth, ysbrydolrwydd, y gred Gristnogol a'r weinidogaeth. Bydd canllawiau astudio hawdd eu dilyn yn helpu pobl i astudio pob pwnc.

Mae'r canllawiau astudio yn cynnwys pob gwybodaeth angenrheidiol felly does dim angen i chi fod yn agos at lyfrgell.

Mae'r cwrs yn dechrau gyda chyfarfod preswyl dros nos yng Ngholeg Mihangel Sant (Ion 10fed – 11eg 2009). Yna, mae gennych ddeg wythnos i astudio pum pwnc. Byddwch yn gweithio drwy'r deunyddiau astudio yn eich cartref eich hun. Bob pythefnos, byddwch yn cwrdd â thiwtor lleol er mwyn siarad am yr hyn rydych wedi ei astudio. Ar ddiwedd y deg wythnos mae diwrnod astudio a fydd yn arwain at ran nesaf y cwrs. Dyma leoliad pedair wythnos – yn ystod y cyfnod hwn byddwch yn arsylwi gwaith gweinidog lleol. Ffi'r cwrs yn ei gyfanrwydd yw £75.

Os ydych am ddeall mwy am Gristnogaeth ond wedi poeni am astudio, dyma'r cwrs i chi.